# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 25 Mai 2018 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Mai 2018 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 7 Mehefin 2018 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**
Cyng. Dyfrig Siencyn – Arweinydd y Cyngor

**PWNC:**
Menter Glannau Caernarfon

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyn cynigion ariannol Llywodraeth Cymru 0 £2,454,243 (ERDF); £340,000 o Rhaglen Adfywio; a £2,175,750 (TMF) fel rhan o Raglen Cyrchfannau Twristiaeth Atyniadol Croeso Cymru ar gyfer gweithredu Menter Glannau Caernarfon.
2. Fod y Cyngor yn rhoi trefniadau priodol mewn lle ar gyfer arian a chyd-lynu'r Fenter, gan gynnwys cwblhau cytundebau unigol gyda phartneriaid megis Rheilffordd Eryri, Galeri Caernarfon Cyf ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.
3. Fod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo hyd at £279,026 o'i gronfeydd gan gynnwys Cronfa Cydariannu ar gyfer y fenter.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr adroddiad atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan Cyng. Ioan Thomas sydd yn Ymddiriedolwr Harbwr Caernarofn (Cadeirydd) sydd yn rhan o'r datblygiad arfaethedig. Roedd y buddiant yn rhagfarnu, ac o ganlyniad mae'r materion sydd yn derstun y penderfyniad wedu eu cylfwyno i sylw Arweinydd y Cyngor.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Llyr B. Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 25/5/2018. |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc : Menter Glannau Caernarfon**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

1. Derbyn cynigion ariannol Llywodraeth Cymru o £2,454,243 (ERDF); £340,000 o Rhaglen Adfywio; a £2,175,750 (TMF) fel rhan o Raglen Cyrchfannau Twristiaeth Atyniadol Croeso Cymru ar gyfer gweithredu Menter Glannau Caernarfon
2. Fod y Cyngor yn rhoi trefniadau priodol mewn lle ar gyfer arwain a chyd-lynu'r Fenter, gan gynnwys cwblhau cytundebau unigol gyda phartneriaid megis Rheilffordd Eryri, Galeri Caernarfon Cyf ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon
3. Fod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo hyd at £279,026 oi gronfeydd gan gynnwys Gronfa Cyd-ariannu ar gyfer y Fenter.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Menter Adfywio Tref a Glannau Caernarfon wedi ei gynnwys o fewn Cynllun Safle Treftadaeth Byd (Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2014-17), ac yn gyfle i gynyddu'r budd i Wynedd o'r statws STB presennol.

Yn ystod 2016, bu i Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ymgymryd â gwaith o adnabod blaenoriaethau ar gyfer Rhaglen Cydgyfeiriant Ewropeaidd 2014-20. Yn sgil y gwaith yma, bu i'r Bwrdd Uchelgais adnabod Menter Glannau Caernarfon ymysg blaenoriaethau Gogledd Cymru ar gyfer rhaglen 'Cyrchfannau Twristiaeth Atyniadol' yn cael ei arwain gan Groeso Cymru.

Mae Cynllun Busnes ar gyfer Menter Glannau Caernarfon wedi ei baratoi a'i gyflwyno i Groeso Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn ymgorffori'r pecynnau gwaith canlynol :

- Ail-ddatblygiad Safle'r Ynys, Cei Llechi ar gyfer defnydd cymysg megis gweithgareddau masnachol a chreadigol
- Datblygiad Gorsaf Rheilffordd Eryri
- Datblygiadau Galeri gan gynnwys ymestyniad i'r ganolfan bresennol i ddarparu cyfleusterau newydd megis sinema, a swyddfeydd
- Cynllun Gwella Mynediad a Chysylltedd ffisegol rhwng gwahanol rannau o'r dref, ac yn arbennig ardal Cei Llechi i'w weithredu gan Gyngor Gwynedd
- Rheolaeth Rhaglen ar gyfer cyd-lynu gweithgareddau gan sicrhau trefniadau rheoli priodol yn unol â thelerau ac amodau ariannol

Cyfanswm cost y Fenter ar gyfer gweithredu'r uchod yw £12.34m gyda chyfraniadau ariannol eraill gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Loteri ynghyd â chyfraniad partneriaid gweithredol. Bydd y Fenter yn weithredol yn o fis Mawrth 2017 hyd at fis Rhagfyr 2020.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Fel rhan o drefniadau'r Fenter, mae Grŵp Llywio eisoes yn weithredol, ac sydd yn gyfrwng ar gyfer cyd-lynu gweithgareddau'r wahanol sefydliadau. Mae'r Grŵp Llywio wedi bod yn gyfrwng defnyddiol iawn ar gyfer paratoi a datblygu'r Cynllun Busnes. Mae'r gweithgareddau'r Grŵp Llywio hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru (drwy Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) ar gyfer gwaith rhagbaratoi manwl.

Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i weithredu fel corff arweiniol ar gyfer y Fenter, ac yn gyfrifol am gyflwyno hawliadau ariannol i Groeso Cymru. O ganlyniad bydd y Cyngor yn cwblhau cytundebau ffurfiol gyda'r partneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau indemniad i'r Cyngor, ac yn cydymffurfio gyda thelerau ac amodau ariannol. Bydd cytundebau ffurfiol hefyd yn gosod trefniadau llywodraethu ar gyfer y Fenter, gan gynnwys sefydlu Bwrdd Prosiect penodol.

Wrth ddatblygu a gweithredu pecynnau gwaith y Fenter, amcangyfrifir y bydd y buddsoddiadau yn creu'r allbynnau canlynol :

| **Mesurydd** | **Targed** |
|---|---|
| Tir wedi ei Ddatblygu | 0.43ha |
| Eiddo wedi ei greu / uwchraddio | 2,872m2 |
| Swyddi wedi eu cymhwyso | 43 fte |
| Nifer SMEs wedi eu cymhwyso | 23 |
| Nifer Ymwelwyr | 45,000 |

Wrth ddatblygu cynigion manwl ar gyfer y Fenter, mae cyfleoedd hefyd wedi eu hadnabod i weithio gyda thrigolion a busnesau lleol er mwyn uchafu'r budd i'r ardal.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

*Datganwyd buddiant gan Cyng. Ioan Thomas sydd yn Ymddiriedolwr Harbwr Caernarfon (Cadeirydd) sydd yn rhan o'r datblygiad arfaethedig. Roedd y buddiant yn rhagfarnu. O ganlyniad, mae'r materion sydd yn destun y penderfyniad wedi eu cyflwyno i sylw Arweinydd y Cyngor.*

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –**

"Cadarnhaf fod darpariaeth eisoes yn ei le ar gyfer cyfraniad o hyd at £279,026 gan Gyngor Gwynedd. Penderfynodd y Cabinet ar 5 Tachwedd 2013 i glustnodi adnodd o £750,000 o gyllideb y Cynllun Strategol (y Gronfa Trawsffurfio) ar gyfer creu Cronfa Cydariannu (arian cyfatebol). O hwn, mae £252,000 eisoes wedi'i ymrwymo cyn ystyried y cais gerbron, ac mae bid un-tro o £500,000 ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cydariannu wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o gyllideb 2018/19. Bydd £40,000 o'r cais gerbron yn cael ei ariannu o ffynonellau eraill yng nghyllideb Economi a Chymuned."

**Swyddog Monitro –**

"Adnabuwyd y Prosiect yma yng Nghynllun Strategol 2016-17 y Cyngor fel un o flaenoriaethau strategol y Cyngor a bwriedir ariannu cyfraniad y Cyngor o gronfa arian Cyd -Ariannu a sefydlwyd i'r diben yma gan y Cabinet yn Hydref 2013 yma. Mae'r amserlen wedi llithro oherwydd oediad mewn cadarnhau adnoddau i'r cynllun ond mae'r argymhelliad yn adlewyrchu'r ymrwymiad i'r prosiect oedd eisoes ar y gweill . Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."